## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mehefin 2016 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.50am.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Prendergast | Cyngor Sir Ddinbych |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Roberts (Pennaeth Cyfleusterau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) ac S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

Ar ddechrau'r cyfarfod, talodd y Cadeirydd deyrnged i Trystan Rhun Roberts a fu farw fis Mai yn dilyn damwain ffordd. Roedd Trystan yn brentis mecanig yng Ngweithdai'r Fflyd yng Nghyfforddd Llandudno ac roedd eisoes wedi dangos cryn addewid yn yr yrfa roedd wedi'i dewis. Roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i'r angladd yng nghartref teulu Trystan a chafwyd cefnogaeth gref gan staff y Gwasanaeth, yn unol â dymuniadau teulu Trystan. Ategwyd y geiriau hyn gan y Dirprwy Gadeirydd a dywedodd ei fod wedi teimlo cryn falchder o weld y cymorth a ddarparwyd i'r teulu gan y staff ac roedd yn dymuno i gofnod gael ei wneud o werthfawrogiad yr Awdurdod i bawb a fu'n gysylltiedig â chefnogi'r teulu ar yr adeg anodd hon. Cafwyd munud o dawelwch gan bawb a oedd yn bresennol er parch i fywyd a gollwyd mor enbyd o gynnar.

Ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Cyng. Richard Davies o Gyngor Sir Ddinbych wedi marw. Cafwyd munud o dawelwch gan bawb a oedd yn bresennol er cof am y Cyng. Davies.

Hefyd, talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Aelod Seneddol, Jo Cox, a oedd wedi cael ei lladd yn ddiweddar wrth wasanaethu ei chymuned.

Yna, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y bydd yr Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu, Gareth Griffiths, yn ymddeol ar 14 Medi. Talodd y Prif Swyddog Tân deyrnged i Mr Griffiths a fu'n un o hoelion wyth GTAGC a'i ragflaenydd GTA Gwynedd am 30 mlynedd, a dymunodd yn dda iddo am ymddeoliad hir a llewyrchus.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau fod y tîm diogelwch cymunedol wedi llwyddo i ennill dau gategori yng Ngwobrau Cymunedol Gwelliant Parhaus Cymru gyfan 2016. Mae'r gwobrau wedi cael eu dylunio i gydnabod a dathlu gwelliant parhaus ledled y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac i roi hybu canfod a rhannu arferion da. Cyflwynwyd y ddwy wobr fawr i'r Gwasanaeth mewn seremoni yng Nghanolfan y Mileniwm; un wobr yn y categori 'Gwerth i'r Cyhoedd' am Archwiliad Integredig Diogelwch yn y Cartref a gwobr arall yn y categori 'Cydweithredu' am waith Tîm Prosiect Atal ac Ymateb y Tri Gwasanaeth.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i aelodau newydd sef y Cynghorwyr B Cowie, M Holland a P Prendergast i'r cyfarfod, yn ogystal ag aelodau o'r cyrff cynrychioliadol.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 MAWRTH 2016

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 21 Mawrth eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2016 fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 AMCANION DRAFFT GWELLA A LLESIANT 2017-18

6.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am waith Gweithgor y Cynllun Gwella ac yn cyflwyno argymhellion y Panel Gweithredol ar 9 Mai 2016 o ran amcanion gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 a'r tu hwnt. Atgoffwyd yr Aelodau am y ddyletswydd statudol i ymgynghori ac i osod amcanion gwella bob blwyddyn, ac am y tro cyntaf eleni mae'n ofynnol i'r Awdurdod hefyd osod amcanion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

6.2 Aeth y PST â'r Aelodau drwy atodiad A o'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r materion y bu gweithgor y Cynllun Gwella yn eu hystyried dros bedwar cyfarfod. Yn ystod cyfarfodydd y gweithgor cafodd yr aelodau gyflwyniadau a gwybodaeth am ragolygon ariannol tymor canolig ATAGC, a buont yn ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy. Ar ôl ystyried yr amcanion gwella presennol, cydnabuwyd na fyddai un o amcanion gwella presennol ATAGC, yr un sy'n ymwneud â chynllun ariannol tymor canolig lle mae rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog, yn gynaliadwy. Felly, roedd yr aelodau'n cydnabod y byddai angen cael strategaeth ariannol yn lle hyn gan gyfuno tair agwedd: sef defnyddio ei gronfeydd ariannol wrth gefn; cynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol tua £1.36 miliwn; a gwneud gostyngiadau i'r gwasanaethau a allai fod yn £900k. Byddai'r strategaeth tair blynedd yn mynd â'r Awdurdod drwodd i 2019/20, a byddai'n cynnwys cynnal cyllideb wedi'i rhewi yn y ddwy flynedd ddiwethaf o'r tair blynedd.

6.3 Bu'r Gweithgor yn ystyried sawl opsiwn yn ymwneud â lleihau gwasanaethau er mwyn arbed y £900k angenrheidiol. Ar ôl ystyried yr opsiynau hyn yn fanwl, daeth gweithgor y Cynllun Gwella i'r casgliad, gyda cryn gyndynrwydd, y byddai cael gwared ar yr ail beiriant amser cyflawn o orsaf Wrecsam yn cynhyrchu'r arbedion sydd eu hangen. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn golygu tynnu 24 o swyddi o'r llu ond o ystyried y trosiant a ragwelir yn y ddwy i dair mlynedd nesaf, gellid sicrhau'r gostyngiad hwn heb orfod diswyddo. Nodwyd y byddai tynnu peiriant amser cyflawn yn gadael â'r un cyflenwad yr orsaf ac yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy.

6.4 Atgoffwyd yr aelodau gan y PST y byddai'r opsiwn hwn yn rhan o ddogfen ymgynghori'r Awdurdod ar y cynllun gwella, ac y byddai ymgynghoriad helaeth yn cael ei gynnal gyda'r gymuned yn y misoedd nesaf cyn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo dogfen y cynllun gwella ar gyfer 2017-18. Hefyd, os caiff ei chymeradwyo, ni fyddai'r ail beiriant yn cael ei dynnu o Wrecsam tan 2019/20.

6.5 Roedd yr aelodau'n cydnabod y materion sy'n wynebu'r Awdurdod ond fe wnaethant fynegi pryder mawr ynglŷn â thynnu'r ail beiriant o Wrecsam. Roedd y pryderon yn cynnwys: y twf yn y boblogaeth; y datblygiad tai mawr sydd yn yr arfaeth ar gyfer yr ardal; effaith anhysbys carchar newydd y Berwyn a gaiff ei agor yn 2017 a'r troseddau cyson sy'n gysylltiedig â thanau yn ardal Wrecsam. Hefyd, dywedodd y Cyng. Skelland fod Cynllun Gofodol Cymru yn datgan mai Wrecsam yw canolfan gogledd-ddwyrain Cymru ac mae'r holl ddatblygiadau'n cael eu sianelu tua Wrecsam gan olygu y bydd ystadau diwydiannol y dref yn ehangu ac y bydd miloedd yn rhagor o swyddi'n cael eu creu yno. Roedd yr aelodau'n bryderus hefyd am weithio trawsffiniol gyda Swydd Amwythig a Swydd Gaer, ac oherwydd toriadau yn Lloegr tybed a fyddai digon o adnodd ar gael i ddarparu'r cymorth ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol yn Wrecsam. Rhoddodd y PST sicrwydd i'r Aelodau fod yr holl faterion hyn wedi cael eu hystyried gan weithgor y Cynllun Gwella a bod gweithio'n trawsffiniol wedi'i ddiogelu mewn deddfwriaeth. Ni fyddai'r cynnydd yn nifer y tai yn golygu cynnydd yn nifer y digwyddiadau o reidrwydd ac mae'r Gwasanaeth wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau o ganlyniad i lwyddiant y gwaith ataliol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf; nodwyd hefyd fod tai newydd yn cynnwys system taenellu dŵr erbyn hyn.

6.6 Cafodd yr Aelodau wybod hefyd y byddai tynnu'r ail beiriant o Wrecsam yn ei gwneud yn ofynnol i Wrecsam a'r gorsafoedd gerllaw yn Johnstown a'r Waun gael cyflawniad llawn a nifer wedi'i warantu o ddiffoddwyr tân y system RDS ar gael i roi cefnogaeth ddigonol i system ddyletswydd amser cyflawn Wrecsam.

6.7 Rhoddodd y Cyng. Lewis sicrwydd i'r aelodau fod gweithgor y Cynllun Gwella wedi treulio dros 12 awr yn ystyried yr holl faterion ac nad yn ysgafn y penderfynwyd argymell yr opsiwn hwn i ymgynghori yn ei gylch; roedd yr aelodau wedi ceisio bod yn deg i Ogledd Cymru gyfan a byddai'r opsiwn hwn yn darparu'r arbedion angenrheidiol heb orfod tynnu gofal tân oddi ar yr un gymuned. Bydd dull cymysg hefyd yn atal yr angen i ofyn i'r awdurdodau cyfansoddol gynyddu eu cyfraniadau i'r Awdurdod yn sylweddol.

6.8 Bu'r aelodau'n trafod y mater yn helaeth gan ofyn am ragor o wybodaeth am brofiad ardaloedd eraill o gael carchar yn y cyffiniau, a chytunodd y PST i ddod â'r wybodaeth i'r cyfarfod yn y dyfodol.

6.9 **PENDEFYNWYD cymeradwyo'r pedwar amcan yn y rhestr isod i ymgynghori'n gyhoeddus yn eu cylch cyn eu mabwysiadu'n ffurfiol erbyn Mawrth 2017:**

1. Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.
2. (NEWYDD) Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu strategaeth ariannol dair blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau.

3. Bydd yr Awdurdod yn ail-falansio'i adnoddau i gyfateb i risg. Bydd yn gweithredu model newydd o ddarparu adnoddau sy'n sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'u lleoli strategol yng Ngogledd Cymru ar gael ar adeg o risg cymharol is, a bydd o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.
4. Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i gyfleoedd i amrywio rôl y diffoddwr tân ac i gynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

(Fe wnaeth yr Aelodau a ganlyn atal eu pleidlais: Cynghorwyr A Evans, A M Jones a J R Skelland)

7 PERFFORMIAD ARIANNOL 2015-2016

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd am y Tro yr adroddiad a oedd yn rhoi adolygiad i'r aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2015-16. Roedd yr adroddiad wedi cael ei ystyried yn fanwl gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau mawr ac ni allent ganfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad ac roeddent yn argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

7.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi cytuno i ariannu rhywfaint o'r gwariant cyfalaf ar asedau tymor byr drwy gyfraniad o'r refeniw, yn arbennig cerbydau ysgafn a chyfarpar ar gyfer y fflyd, gan nodi y bydd yr arbedion ar gostau ad-dalu dyledion a benthyca. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth 2016, cytunwyd i ddefnyddio unrhyw danwariant i ariannu'r rhaglen gyfalaf ac roedd hyn yn £641,158 yn 2015-16.

7.3 Fe wnaeth yr Aelodau ailddatgan eu pryderon am y gostyngiad yn arian y grant diogelwch cymunedol. Ar iddynt gael cyfle i ofyn cwestiynau i'r swyddogion, **PENDERFYNWYD nodi**

**(i) y penderfyniad blaenorol i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn rhannol o'r refeniw gan ei gynyddu o £534,048 i £641,158; a**

**(ii) y trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd a'r darpariaethau fel y nodir isod:**

| **Cynllun** | **Gweddill wrth agor 01-Ebr-15 £** | **Symudiad 2015/16** | **Gweddill wrth gau 31-Maw-16** |
|---|---|---|---|
| **Darpariaethau** | | | |
| Darpariaeth Pensiwn ar sail Afiechyd | (269,000) | 169,000 | (100,000) |
| Darpariaeth Ôl-daliadau RDS | (26,841) | 26,841 | |
| Darpariaeth Pensiwn Ôl-weithredol RDS | (666,940) | 666,940 | |
| **CYFANSWM Y DARPARIAETHAU** | **(962,781)** | **862,781** | **(100,000)** |
| | | | |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | (1,816,836) | (862,781) | (2,679,617) |
| Cronfeydd a Glustnodwyd | 624,506) | | (624,506) |
| Cronfa Gyfalaf | (740,400) | 340,400 | (400,000) |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **(3,181,742)** | **(522,381)** | **(3,704,123)** |

8 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2015-2016

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd am y Tro adroddiad blynyddol y trysorlys sy'n un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'n nodi gweithgarwch y trysorlys a gwir ddangosyddion darbodus 2015-2016 yn unol â gofynion y Cod Ariannol.

8.2 Cafodd yr adroddiad ei ystyried yn fanwl gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin. Roedd rhan o'r cyflwyniad i'r Aelodau'n cynnwys trafodaeth am fenthyca byrdymor a lefel y risg. Cafodd yr aelodau wybod mai bach iawn fyddai'r newid yn lefel y risg petai benthyca byrdymor yn cynyddu, ond fe fyddai yna arbedion ariannol. Roedd yr aelodau'n derbyn y cyngor ac yn cytuno mewn egwyddor i gynyddu lefel y benthyca byrdymor. Nid oedd gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pellach ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, ac roeddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

8.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwir ddangosyddion darbodus 2015-2016.**

Ar yr adeg hon, fe wnaeth y Cynghorwyr G Lowe a G Williams adael y cyfarfod.

9 PWYNTIAU ALLWEDDOL PERFFORMIAD ANARCHWILIEDIG AMCANOL 2015-16

9.1 Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol gyflwyniad ar ffigyrau perfformiad anarchwiliedig amcanol 2015-16. Dyma gyfle cynnar i'r Aelodau weld perfformiad y Gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a nodwyd y caiff yr wybodaeth ei hadrodd yn ffurfiol drwy'r asesiad o berfformiad a gaiff ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2016.

9.2 Roedd y ffigyrau perfformiad yn dangos bod y tueddiad yn parhau am i lawr yn nifer y digwyddiadau yn y rhan fwyaf o'r meysydd perfformiad. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y galwadau am wasanaethau arbennig oherwydd llifogydd a bu mymryn o gynnydd yn nifer y tanau bwriadol mewn cartrefi a mymryn o gynnydd yn nifer yr anafusion o ganlyniad i danau damweiniol mewn anheddau.

9.3 Da oedd nodi y bydd gostyngiad sylweddol yn nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt, o 3218 i 1995; gellid priodoli'r cynnydd sydyn i'r newid polisi ar fynd at alwadau gan larymau tân awtomatig a oedd wedi gostwng o 1972 i 966 mewn blwyddyn.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 PROSIECTAU ATEGOL CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16

10.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am effeithiau penderfyniadau'r Awdurdod i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arbenigol achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr, a'r trefniadau newydd ar gyfer galwadau sy'n dod gan larymau tân awtomatig.

10.2 Roedd yr aelodau'n falch o nodi'r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd o ganlyniad i gyflwyno'r newidiadau, a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn gweithredu'r polisïau newydd. Awgrymodd y Cyng. Lewis nad oes adroddiadau rheolaidd i'r Awdurdod mwyach oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn codi yn y dyfodol.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r effaith gadarnhaol a gafwyd o ganlyniad i gyflwyno'r polisïau newydd ac nad oes angen adroddiadau rheolaidd i'r Awdurdod mwyach.**

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDILEU DYLEDION DRWG

11.1 Ar gais yr Awdurdod, mae'r Trysorydd, erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn cyflwyno adroddiad blynyddol sy'n rhestru'r holl ddyledion a gafodd eu dileu, gan nodi'r rhesymau dros eu dileu.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi bod y Gwasanaeth, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, wedi dileu tair dyled ddrwg gwerth cyfanswm o £1,631.45.**

Ar yr adeg hon, fe wnaeth y Cynghorwyr R E Parry ac A Tansley adael y cyfarfod.

12 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

12.1 Cyflwynodd y DBST y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Aelodau; roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y Datganiad yn fanwl ar 6 Mehefin ac wedi argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo. Nodwyd bod y Datganiad yn ffordd o adrodd yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun.

12.2 **PENDERFYNWYD nodi a chymeradwyo cynnwys datganiad llywodraethu blynyddol 2015/16.**

13 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – PRYNU AELODAETH YN ÔL YN DILYN GWEITHREDU DIWYDIANNOL

13.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau wneud penderfyniad ynglŷn â thalu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn ystod y cyfnodau y bu gweithwyr gweithredol yn streicio.

13.2 Atgoffwyd yr Aelodau am y cyfnodau o streicio a gafwyd rhwng 25 Medi 2013 ac 16 Awst 2014 gan ddiffoddwyr tân oherwydd materion pensiynau. Dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân nid yw unrhyw absenoldeb ar streic yn cyfri fel gwasanaeth pensiynadwy. Gall aelod o'r cynllun pensiwn, drwy hysbysu'r Awdurdod yn ysgrifenedig cyn pen chwe mis, 'brynu'n ôl' y diwrnodau streicio er mwyn iddynt gyfri fel gwasanaeth pensiynadwy. Pan fo aelod gweithredol yn absennol o gyflogaeth y cynllun oherwydd anghydfod diwydiannol, gallai rheolwr y cynllun ei gwneud yn ofynnol i'r aelodau dalu cyfraniadau'r cyflogwr yn ogystal â'u cyfraniad eu hunain.

13.3 Nodwyd bod gan yr Awdurdod ddisgresiwn, dan reol F2 (5) o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân (FPS) 1992 a dan reoliad 111 o gynllun newydd y diffoddwyr tân (NFPS) a chynllun pensiwn y diffoddwyr tân 2015, i ddewis talu cyfraniadau'r cyflogwr yn lle'r aelod, os yw'n dymuno gwneud hyn. Defnyddir y disgresiwn hwn fel arfer ar ôl i'r anghydfod diwydiannol ddod i ben ond gan fod Undeb yr FBU yn parhau i herio'r newidiadau, mae rheolwr y cynllun wedi penderfynu cwblhau'r camau angenrheidiol i sicrhau bod cofnodion aelodaeth y cynllun yn gywir ac yn gyfoes.

13.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a chytuno y bydd yr Awdurdod yn ymorol am gost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr am y cyfnodau dan sylw.**

14 CWYNION A GWERTHFAWROGIADAU

14.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

14.2 Caiff cwynion eu cofnodi fel materion y tynnir sylw'r Gwasanaeth atynt pan fo aelodau'r staff yn cyflawni neu'n cymryd rhan ym musnes cyfreithlon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ymchwiliwyd i'r 25 o gwynion, a chadarnhawyd 7 ohonynt. Yn yr un cyfnod, daeth 92 o negeseuon o werthfawrogiad drwy lythyrau, cardiau, Twitter a Facebook i fynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd â'r Gwasanaeth a'i staff.

14.3 Canmolodd yr aelodau fod canran y cwynion yn isel iawn a bod cynnydd yn y negeseuon o werthfawrogiad a ddaeth i'r Gwasanaeth.

14.4 **PENDERFYNWYD nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law.**

15 COFNODION CYFARFODYDD

15.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo:

- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 9 Mai 2016
- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2016.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

Ar yr adeg hon, fe wnaeth y Cynghorwyr P Shotton, A I Dunbar ac W O Thomas adael y cyfarfod.

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

16 RHAGLEN GYFALAF 2016-17

16.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

16.2 Nodwyd bod y gorsafoedd tân a heddlu newydd yn Nefyn, Tywyn a Glannau Dyfrdwy, a'r orsaf dân ac ambiwlans newydd yn Wrecsam, yn gwbl weithredol erbyn hyn. Wrth agor y gorsafoedd hyn dyma gwblhau rhaglen gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer uwchraddio a moderneiddio ei ystâd.

16.3 Diolchodd y DBST i Stephen Roberts a'i dîm yn yr Adran Gyfleusterau am eu holl waith ar y rhaglen dros y ddeng mlynedd ddiwethaf ac ategwyd y sylwadau hyn gan y Cadeirydd ar ran yr Awdurdod. Hefyd, canmolodd y PST ddycnwch Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am gynnal y rhaglen gyfalaf yn wyneb pwysau cystadleuol ar y gyllideb.

16.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**